YSGOL GYNRADD NEFYN

Annwyl Rieni,

Presenoldeb a Phrydlodeb
Gair i ddiolch am eich cydweithrediad i sicrhau fod y plant yn cyrraedd yr ysgol erbyn deg munud i naw yn y bore, ac am gysylltu â`r ysgol yn syth os na fydd eich plentyn yn bresennol. Er inni gyrraedd ein targed o 94% erbyn diwedd Tymor yr Haf, yn anffodus daeth y ffliw a`r `bug` ac fe ostyngodd y safon cyn y Nadolig.
Gan fod rhai o`r disgyblion gyda chanran is na 85% byddaf yn cysylltu â rhieni`r disgyblion hynny ar unwaith yn dilyn derbyn rhestr o`r enwau gan y Swyddog Lles.

Cyfle i drafod eich plentyn
Bydd cyfle i chi ddod i`r ysgol rhwng 3:30 a 4:30 o`r gloch ar Ddtdd Llun Chwefror 23ain am sgwrs os oes unrhyw bryderon o gwbl neu os ydych yn awyddus i drafod unrhyw fater â`r athrawes neu`r Pennaeth.
Os ydych yn dymuno cael sgwrs gyfrinachol neu `breifat` gyda un o`r athrawon neu gyda`r Pennaeth unrhyw amser mae croeso ici godi`r ffôn i drefnu amser cyfleus.
Cofiwch fod drws agored i unrhyw riant alw`n yr ysgol rhwng 8:00 y bore a 5:30 y prynhawn am sgwrs gyda`r Pennaeth.

Holiaduron Rhieni
O ganlyniad i`ch cyfraniad i`r holiaduron amgaeaf ddadansoddiad ohonynt a`r camau rydym wedi ei gymeryd yn yr ysgol. (Cofiwch fod yr wybodaeth ar gael ar ein safle ysgol ar y We www.ysgolnefyn.co.uk).